Addysg – Tystysgrif Broffesiynol (TBA) AHO (Rhan-Amser)

Mae'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg (PCE PCET) ar gyfer myfyrwyr sydd â chymhwyster pwnc penodol sydd â diddordeb mewn addysgu fel gyrfa.

Ar y cwrs, byddwch yn datblygu eich sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o ymarfer addysgu a dysgu llwyddiannus mewn addysg ôl-orfodol a meithrin eich hyder fel ymarferwr proffesiynol.

Drwy gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus byddwch yn ennill cymhwyster addysgu a gydnabyddir yn genedlaethol i weithio mewn addysg bellach a'r sector ôl-orfodol ehangach.

Cyflwynir y cwrs hwn trwy adran Academi Chweched Dosbarth (SFA) y Coleg, ar gampysau Afan a'r Drenewydd.

Gofynion Mynediad

Cymhwyster Lefel 3 sy'n berthnasol i'r arbenigedd pwnc a TGAU Gradd C neu uwch gan gynnwys Saesneg a Mathemateg. Bydd angen i fyfyrwyr ymgymryd ag ymarfer addysgu o leiaf 70 awr bob blwyddyn a rhaid trefnu hyn cyn cofrestru ar y cwrs. Mae angen cyfweliad ar gyfer y cwrs hwn

Mae'r rhaglen hon yn gofyn am wiriad DBS gwell, a godir ar gost ychwanegol i'r myfyriwr.

Rhagolygon Gyrfa

Mae gan raddedigion ragolygon gyrfa ym meysydd addysg bellach ac addysg i oedolion, er enghraifft: athro, darlithydd, cynorthwyydd addysgu ôl-orfodol neu hyfforddwr astudio. Yn dilyn y cwrs hwn gall myfyrwyr ddewis dilyn cyrsiau lefel prifysgol eraill.

Modiwlau'r cwrs

Bydd y rhaglen yn cynnwys darlithoedd, seminarau, tiwtorialau a gweithdai ymarferol. Mae'n ofynnol i chi gael lleoliad ymarfer addysgu sylweddol yn y ddwy flynedd o astudio.

Bydd yn rhaid i chi gwblhau aseiniadau ysgrifenedig, asesiadau ymarferol, cyfnodolion myfyriol a chyflwyniad poster wrth i chi symud ymlaen trwy'r rhaglen. Bydd eich addysgu yn cael ei arsylwi yn ystod y ddwy flynedd academaidd.

Mae'r modiwlau'n cynnwys: Cynllunio ar gyfer Dysgu, Asesu ar gyfer Dysgu, Datblygu Arfer Proffesiynol, Ymchwil Astudiaethau Achos, Siarad Testun a Llythrennedd ac Ymestyn Arfer Proffesiynol

Asesiad

Bydd gofyn i chi gyflawni aseiniadau ysgrifenedig, asesiadau ymarferol, dyddiaduron myfyriol a chyflwyniad poster wrth i chi symud ymlaen trwy'r rhaglen. Bydd eich sesiynau addysgu yn cael eu harsylwi yn ystod y ddwy flynedd academaidd.

Costau Ychwanegol

Teithio i'ch lleoliad gwaith ac adref. Mae'r rhaglen hon yn gofyn am wiriad manwl gan y DBS a bydd rhaid i'r myfyriwr dalu'r gost ychwanegol.

DULL ASTUDIO

PT

LLEOLIAD

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

Coleg Afan - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

2Y